

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID**  
**20 MAI 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuencid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Llun, 20fed Mai, 2019

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd David Healey (Cadeirydd)**

Y Cyngorwyr: Janet Axworthy, Geoff Collett, Paul Cunningham, Andy Dunbobbin, Gladys Healey, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Tudor Jones, Ian Smith, and Martin White

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Lynn Bartlett, David Hytch, Rita Price a Rebecca Stark

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cyngorwyr: Sian Braun a David Williams

**DIRPRWYON:** Y Cyngorydd Rosetta Dolphin dros y Cyngorydd Dave Mackie

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cyngorwyr: Mike Allport a David Evans

**CYFRANWYR:** Y Cyngorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Addysg; Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid); Uwch Reolwr Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion a'r Ymgynghorydd Dysgu (Iechyd, Lles a Diogelu)

Mrs. Jane Cooper, Pennaeth Ysgol Alun yr Wyddgrug; Mr. Steve Jackson, Prif Swyddog Gweithredu, Coleg Cambria; Mr. Alex Thomas, Pennaeth y Chwech Glannau Dyfrdwy a Rheolwr yr Uned TG (ar gyfer rhif 5 yn y cofnodion).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuencid a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**1. PENODI CADEIRYDD**

Dywedodd yr Hwylusydd y cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor fod o'r Grŵp Llafur. Gan fod y Cyngorydd David Healey wedi ei benodi i'r swydd hon gan y Grŵp, gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r penderfyniad.

(Cadeiriodd y Cyngorydd Healey weddill y cyfarfod)

**PENDERFYNWYD:**

Cadarnhau'r Cyngorydd David Healey fel Cadeirydd y Pwyllgor.

**2. PENODI IS-GADEIRYDD**

Enwebodd y Cyngorydd Paul Cunnigham y Cyngorydd David Hytch fel Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Martin White.

Ar ôl cynnal pleidlais penodwyd y Cynghorydd David Hytch yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

Diolchodd David Hytch i'r Pwyllgor am ddangos ffydd ynddo unwaith eto.

### **PENDERFYNWYD:**

Penodi David Hytch yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

### **3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

### **4. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2019.

#### Cywirdeb

Dywedodd y Cynghorydd Paul Cunningham ei fod wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau i'r cyfarfod, gan ofyn bod y cofnodion yn cael eu newid i gofnodi hyn.

### **PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

### **5. ADOLYGIAD POLISI CLUDIANT DEWISOL – CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Jane Cooper, Mr Steve Jackson a Mr Alex Thomas i'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) adroddiad yn rhoi adborth ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar yr adolygiad o'r polisi cludiant dewisol i'r ysgol a'r coleg ac yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael. Gwahoddwyd y Rheolwr Ysgolion – Cynllunio a Darpariaeth i gyflwyno'r adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Ysgolion bod y Cabinet wedi cytuno ar amrywiaeth o opsiynau i ymgynghori'n ffurfiol yn eu cylch mewn perthynas â'r mater o gludiant dewisol i'r ysgol a'r coleg i ddisgyblion ôl-16. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 18 Chwefror a 5 Ebrill 2019. Mae'r adroddiad yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad. Siaradodd y Rheolwr Ysgolion am yr ystyriaethau allweddol fel sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, ac eglurodd bod yr opsiynau a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad, yn unol â chytundeb y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018, i'w gweld yn llawn yn atodiad 2 i'r adroddiad gyda chrynodeb o'r ymatebion a gafwyd.

I gloi, dywedodd y Rheolwr Ysgolion pe bai'r Pwyllgor yn cytuno ar unrhyw opsiynau newydd yn y cyfarfod, yna byddai angen cyfnod newydd o ymgynghori er mwyn ystyried y cynigion a wnaed.

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Cooper, Mr Jackson a Mr. Thomas i roi gwybod i'r Pwyllgor beth yw eu barn am ganlyniadau'r ymgynghoriad fel sydd i'w gweld yn yr adroddiad.

Diolchodd Mrs Cooper, ar ran y Gymdeithas Penaethiaid Ysgolion Uwchradd, i'r Pwyllgor am y cyfle i gyflwyno safbwyntiau Penaethiaid Uwchradd mewn ymateb i'r adolygiad o'r polisi cludiant i'r ysgol/ coleg dewisol a'r opsiynau sydd ar gael. Dywedodd bod y Gymdeithas Penaethiaid Ysgolion Uwchradd yn deall y pwysau ariannol y mae costau perthnasol i gludiant ysgolion yn eu hachosi a'r angen i gau 'bwlch' ariannu'r Cyngor, ond maen bwysig annog pob dysgwr dros 16 i barhau â'u haddysg a'u cefnogi i wneud hynny drwy eu galluogi i fynd i leoliad o'u dewis nhw e.e. addysg ôl-16 mewn ysgol neu goleg. Aeth yn ei blaen i ddweud er ei bod yn bwysig bod dysgwyr yn cael cludiant am ddim i'w lleoliad ôl-16, mae'n bwysicach fyth bod cludiant ar gael ar draws Sir y Fflint, hyd yn oed ar gost bychan i rieni, er mwyn galluogi myfyrwyr i barhau mewn addysg ôl-16 a gwneud eu dewis eu hunain o ran lle i fynd, Roedd y Gymdeithas Penaethiaid Ysgolion Uwchradd yn cefnogi'r opsiwn o godi tâl ar rieni ond bod hwnnw'n cael ei gadw ar lefel isel er mwyn gallu parhau i ddarparu cludiant ar gyfer myfyrwyr.

Cyfeiriodd Mrs Cooper at bryderon y Gymdeithas Penaethiaid Ysgolion Uwchradd y byddai sawl canlyniad pe rhoddid y gorau i'r cludiant gan gynnwys mwy o dagfeydd traffig o amgylch ysgolion oherwydd y cynnydd mewn cerbydau preifat yn cludo plant. Dywedodd ei bod yn bwysig annog myfyrwyr i barhau i ddefnyddio cludiant cyhoeddus i deithio i ac o'r ysgol. I gloi dywedodd Mrs Cooper er mai dymuniad y Gymdeithas Penaethiaid Ysgolion Uwchradd fyddai cadw at y drefn sydd ohoni ond eu bod yn cydnabod y pwysau ariannol sydd ar y Cyngor ac felly'n ystyried y byddai parhau i ddarparu cludiant i fyfyrwyr am bris isel yn gyfaddawd rhesymol.

Diolchodd Mr Jackson ar ran Coleg Cambria am y cyfle i Goleg Cambria fod yn rhan o'r broses ymgynghori a siaradodd am y gwaith ar y cyd y mae Coleg Cambria, y Cyngor a GwE wedi bod yn ei wneud ar rwydwaith o ddarpariaeth cludiant. Dywedodd bob cludiant am ddim i fyfyrwyr ôl-16 yn bwysig er mwyn rhoi dewis i ddysgwyr, sydd yn ei dro yn effeithio ar y gallu i gadw myfyrwyr mewn addysg ac ar eu cyfranogiad a'u cyrhaeddiad. Cyfeiriodd at y broblem o fyfyrwyr yn gadael addysg ac yn cael eu dosbarthu fel NEET – ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a dywedodd bod cynnig dewis eang o opsiynau cludiant yn helpu myfyrwyr i ail-ymgysylltu ag addysg. Mynegodd bryderon am yr isadeiledd cludiant lleol gan ddweud bod rhinwedd a chryfder mewn cynnal y rhwydwaith cludiant presennol a phe bai Coleg Cambria yn ddibynnol dim ond ar gludiant lleol y byddai hynny'n arwain at gryn rwystrau a heriau o ran dewis myfyrwyr o leoliadau astudio. Aeth Mr Jackson yn ei flaen i ddweud bod y trefniant cludiant a ddarperir ar hyn o bryd yn wasanaeth mwy cynaliadwy sy'n cefnogi dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n ceisio cyfyngu ar nifer y cerbydau sy'n teithio i sefydliadau addysgol drwy wneud defnydd cynyddol o gludiant cyhoeddus.

I gloi dywedodd Mr Jackson mai dewis Coleg Cambria fyddai cadw'r drefn sydd ohoni heb godi unrhyw dâl am gludiant ar fyfyrwyr, fodd bynnag roedd yn derbyn yr heriau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus ac os penderfynir codi

am gludiant i'r ysgol/coleg yna byddai Coleg Cambria am weld y taliadau'n cael eu cyflwyno fesul cam, bod y costau'n cael eu cadw ar lefel fforddiadwy a bod teuluoedd incwm isel yn cael cefnogaeth barhaus.

Dywedodd Mr Thomas ei fod yn cefnogi safbwyntiau a phryderon Mrs Cooper a Mr Jackson .

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Addysg mai gwasanaeth anstatudol yw darpariaeth cludiant i'r ysgol/coleg ac mai'r Awdurdod sy'n talu amdano. Dywedodd bod nifer o Awdurdod Lleol nad ydynt yn darparu cludiant ac eglurodd y gallai unrhyw argymhellion y bydd y Pwyllgor yn eu gwneud i'r Cabinet effeithio ar lefel Treth y Cyngor y bydd y Cyngor yn ei osod yn y dyfodol. Cyfeiriodd at yr enghreifftiau o daliadau am gludiant ôl-16 a welir yn atodiad 2, gan gyfeirio at yr enghraifft o £100 y tymor, sydd gyfwerth â £1 y siwrnai.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Collett am arbedion cost, cyfeiriodd y Prif Swyddog at y manylion am yr arbedion cost posibl sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

Dywedodd Mr David Hytch ei fod yn cydnabod yr ymdrechion yr oedd y Cyngor wedi eu gwneud i ddiogelu cyllidebau ysgolion hyd eithaf ei allu yn y blynyddoedd diweddar, ond mynegodd bryderon am y posibilrwydd y gallai codi tâl am gludiant gynyddu'r nifer o bobl ifanc NEET, a gofynnodd a oedd rhieni'n gorfod talu ddwywaith o ystyried y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn gynharach yn y flwyddyn. Gofynnodd hefyd a ystyriwyd cost gweinyddu taliadau am gludiant ysgol gan gyfeirio at y cynnydd mewn gwaith gweinyddol a ddigwyddodd yn sgil codi am y gwasanaeth cerdd.

Roedd y Cynghorydd Kevin Hughes yn cytuno â sylwadau Mr Hytch a chododd yntau hefyd bryderon am y posibilrwydd y bydd myfyrwyr yn gadael y system addysg. Gofynnodd, pe bai tâl yn cael ei godi, am iddo gael ei gadw mor isel â phosibl.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin at benderfyniad blaenorol Cyngor i gau darpariaeth ôl-16 mewn rhai ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint ac roedd yn teimlo ei bod yn annheg codi tâl ar ddisgyblion nad oes ganddynt unrhyw ddewis ond teithio i sefydliadau addysgol eraill ar gyfer eu haddysg ôl-16. Cododd bryderon hefyd am y gost i grwpiau o rodyr a chwirydd a gofynnodd am i hynny'n cael ei adolygu. Eglurodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Addysg y cymerwyd y penderfyniad i gau darpariaeth ôl-16 mewn rhai ysgolion uwchradd am eu bod yn anghynaliadwy oherwydd gostyngiad yn nifer y disgyblion.

Gofynnodd Mrs Rebecca Stark a ellid ystyried consesiynau ar gyfer teuluoedd gyda mwy nag un plentyn yn cael addysg ôl-16. Holodd hefyd a fyddai swydd 0.5 yn ddigon i weinyddu'r cynllun taliadau a sut y byddai hyn yn gweithio ar lefel ymarferol.

Rhoddodd y Prif Swyddog sicrwydd pe bai'r Cabinet yn argymhell cyflwyno tâl am gludiant yna bydd niferoedd disgyblion ar gyfer addysg ôl-16 yn cael ei fonitro'n ofalus a gellid darparu rhagor o adroddiadau diweddarau i'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiynau am grwpiau o frodyr a chwiorydd byddai angen gofyn am ragor o gyngor am gonsesiynau cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad.

Cododd y Cynghorydd Gladys Healey bryderon am rieni nad yw eu hincwm yn cyrraedd y trothwy i hawlio budd-dal ac na fyddent felly'n gallu cael cymorth ariannol. Roedd yn bryderus y byddai hyn yn cael effaith negyddol o safbwynt tlodi plant.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Martin White at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Llywodraeth Cymru, sydd i'w chrosawu, ond cododd bryderon nad oes unrhyw arian wedi dod i Awdurdodau Lleol i'w helpu i gwrdd â gofynion y Ddeddf a fyddai wedi helpu gyda chostau cludiant i ddisgyblion. Gofynnodd hefyd ym mha ffordd y byddai'r tâl yn cael ei godi ar rieni.

Cytunodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Addysg â'r sylwadau a rhoddwyd enghreifftiau o benderfyniadau polisi LIC a oedd wedi cael effaith gyllidol ar Awdurdodau Lleol heb fod unrhyw arian ychwanegol ar gael ar gyfer hynny. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n bwysig ystyried gallu rhieni i dalu ac na fyddai'r Cyngor yn disgwyl i rieni dalu ffi flynyddol ond yn hytrach talu bob tymor. Os yw'r Cabinet yn argymhell cyflwyno tâl, gellid rhoi manylion am sut y byddai hyn yn cael ei weithredu i'r Pwyllgor.

Gofynnodd Mrs Stark a fu unrhyw gyd-lobio er mwyn cael cymorth gan Lywodraeth Cymru gyda chostau cludiant i'r ysgol. Dywedodd y Prif Swyddog nad oedd yn ymwybodol o unrhyw lobio am gludiant ysgol yn benodol ond bu llawer iawn o lobio am gyllido gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Roedd y cydnabod yr heriau a wynebir wrth geisio diogelu cyllid ysgolion ac roedd yn rhannu pryderon yr aelodau ynglŷn a'r effeithiau posibl ar bobl ifanc.

Amlinellodd y Cynghorydd Tudor Jones nifer o senarios yr oedd yn teimlo nad oeddent wedi cael yr ystyriaeth briodol h.y. a fyddai yna un tâl safonol ac a ellid gostwng hwn os nad yw disgybl yn teithio i'w cyfleuster addysg ôl-16 yn ddyddiol, a'r gost i grwpiau o frodyr a chwiorydd. Am y rhesymau hyn roedd yn teimlo y byddai cyflwyno tâl yn creu biwrocratiaeth ddiangen gan ddweud y dylid cadw'r drefn sydd ohoni.

Gofynnodd y Cynghorydd Marion Bateman a ellid ystyried cysylltu â busnesau lleol i ofyn os hoffent hysbysebu eu busnesau ar fysis ysgol gyda'r arian a godir drwy wneud hynny yn cael ei ddefnyddio i helpu tuag at gostau cludiant ysgol. Siaradodd y Cynghorydd Patrick Heesom o blaid yr awgrym hwn fel ffrwd ariannu amgen. Cyfeiriodd at waith y Gweithgor Trawsbleidiol ar Gyllid Llywodraeth leol ac anogaeth LIC i Awdurdodau Lleol ddod o hyd i arian drwy ddulliau amgen.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Evans at y ffaith nad oes digon o wybodaeth ynglŷn ag o ble y mae disgyblion sy'n teithio i Goleg Cambria yn dod. Dywedodd ei fod wedi bod yn ystyried opsiynau amgen ac awgrymodd y gellid defnyddio Gwasanaeth Bws Gwennol Glannau Dyfrdwy i gludo disgyblion in Goleg Cambria. Awgrymodd hefyd yr opsiwn o greu gorsaf drenau yng Nghei Connah a fyddai'n gwella mynediad i Goleg Cambria a darpariaeth addysg ol-16 ehangach yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mrs Rita Price am asesiadau o effaith ar gydraddoldeb rhoddodd y Rheolwr Ysgolion – Cynllunio a Darpariaeth sicrwydd i'r Pwyllgor bod yr holl asesiadau o effaith ar gydraddoldeb wedi eu cwblhau.

Yn dilyn ei sylwadau cynharach cynigiodd y Cynghorydd Heesom y dylid gofyn i'r Cabinet oedi ystyried cyflwyno tâl am gludiant ysgol/coleg ôl-16 er mwyn cael cyfle i adolygu'r opsiynau o ran cyflwyno ffrydiau cyllido amgen. Eiliwyd y cynnig hwnnw.

Amlinellodd y Prif Swyddog oblygiadau oedi penderfyniad y Cabinet a'r cyfnod o rybudd y mae'n ofynnol ei roi i rieni. Dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Addysg y gallai oedi'r penderfyniad gael effaith ar gyllideb 2020/21.

Dywedodd y Cynghorydd Chris Dolphin er ei fod yn cydnabod y cynnig a'r awgrym a wnaed gan y Cynghorwyr Heesom a Bateman, roedd yn bryderus na fyddai modd dod o hyd i gyllid ar y lefel sy'n angenrheidiol i ddiwallu costau darpariaeth cludiant ôl-16 erbyn Gorffennaf 2019.

Cafwyd pleidlais ac ni chefnogwyd cynnig y Cynghorydd Heesom.

Yn dilyn trafodaeth cefnogodd y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:

- Bod y Pwyllgor y cefnogi Opsiwn 3 fel sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad;
- Parhau i ddarparu cludiant ôl-16 am ddim i'r rhai sydd â hawl i fudd-dal; a
- Bod y Cabinet yn ystyried consesiynau ar gyfer grwpiau o frodyr a chwiorydd sydd mewn addysg ôl-16.

Diolchodd y cadeirydd i'r Pwyllgor, y swyddogion a'r gwesteion am eu cyfraniad i'r drafodaeth.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn argymhell y canlynol i'r Cabinet:

- Bod y Pwyllgor y cefnogi Opsiwn 3 fel sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad;
- Parhau i ddarparu cludiant ôl-16 am ddim i'r rhai sydd â hawl i fudd-dal; a
- Bod y Cabinet yn ystyried consesiynau ar gyfer grwpiau o frodyr a chwiorydd sydd mewn addysg ôl-16.

## **6. HUNANWERTHUSIAD O WASANAETHAU ADDYSG LLYWODRAETH LEOL**

Dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bod y Cyngor yn cynnal hunanwerthusiad blynyddol gan fesur ei hun yn erbyn gofynion fframwaith arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol a gyhoeddir gan Estyn. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r hunanwerthusiad hwnnw ac yn amlygu cryfderau allweddol a'r rhesymau dros ddatblygu o fewn y ddarpariaeth gwasanaethau addysg bresennol.

Cyflwynodd y Prif Swyddog yr adroddiad a chyfeiriodd at yr ystyriaethau allweddol. Eglurodd y cyflwynwyd y fframwaith newydd ar gyfer arolygu

gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn 2018 yn dilyn cyfnod peilot ac roedd yn canolbwyntio ar ddeilliannau, ansawdd gwasanaethau addysg, arweinyddiaeth a rheolaeth. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai Gwasanaethau Addysg pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi cael eu harolygu erbyn 2022 ac y byddai 10 wythnos o rybudd yn cael ei roi cyn arolygiad. Roedd yr Awdurdod wedi cael gwybod y byddai'n cael ei arolygu gan dîm o Estyn ac Arolygwyr SAC rhwng 3-7 Mehefin 2019. Byddai ymweliad rhagarweiniol dros ddeuddydd yn digwydd ar 22 a 23 Mai. Eglurodd y Prif Swyddog mai'r adroddiad hunanwerthuso a gynhyrchir gan yr Awdurdod fydd y ddogfen allweddol a ddefnyddir gan yr arolygwyr i hysbysu eu trywydd ymholi a'u dyfarniadau yn ystod yr ymweliad, wedi'i gefnogi gan ddadansoddiad o amrywiaeth o ddata ac ymweliadau gydag uwch swyddogion a rhanddeiliaid allweddol. Tynnodd y Prif Swyddog sylw at y pum cwestiwn lleol a nodir yn yr adroddiad ac y creffir arnynt yn ychwanegol at y fframwaith arolygu cyffredinol.

I gloi dywedodd y Prif Swyddog y byddai'r adroddiad ar Wasanaethau Addysg Sir y Fflint yn cael ei gyhoeddi ar 9 Awst 2019. Crybwyllodd y safonau uchel y mae ysgolion Sir y Fflint yn eu cyrraedd gan ddweud fod deilliannau dysgwyr ymhell dros y cyfartaledd cenedlaethol ac yn rhai o'r gorau yn y rhanbarth.

Llongyfarchodd y Cyngorydd Kevin Hughes y Prif Swyddog a'i thîm a'r ysgolion am eu hymroddiad i barhau i wella safonau addysgol. Talodd deyrnged hefyd i'r gwaith rhagorol y mae Claire Sinnot, Ymgynghorydd Dysgu, Iechyd a Lles yn ei wneud i sicrhau bod pobl ifanc yn cael ei diogelu, ac er bod yr Awdurdod yn gweithio'n adeiladol gyda rhieni mae'n her os gwrthodir mynediad i swyddogion i aelwydydd lle caiff plant eu haddysgu yn y cartref. Dywedodd y Prif Swyddog bod adolygiad o bolisi cenedlaethol yn y maes hwn ar y gweill ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i sylwadau Mr David Hytch am yr effeithiau a'r heriau sy'n wynebu ysgolion oherwydd diffyg cyllid, eglurodd y Prif Swyddog bod buddsoddiad mewn addysg wedi parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor er gwaethaf cyni cyllidol parhaus, fodd bynnag ni fyddai'n caniatáu i lefelau cyllido gwael ddylanwadu ar safon gwasanaethau addysgol gan gyfeirio eto at y safonau uchel a'r perfformiad da a gyflawnwyd gan ysgolion Sir y Fflint yn wyneb adnoddau cyfyngedig.

Llongyfarchodd y Pwyllgor y Prif Swyddog am adroddiad cynhwysfawr ac am ehangder a gwerth y gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n trosglwyddo sylwadau'r Pwyllgor i'w Thîm.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi cynnwys yr hunanwerthusiad; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn llongyfarch yr adran am natur gynhwysfawr yr adroddiad ac am ehangder a gwerth y gwasanaeth a ddarperir.

## **7. PROSIECT ADTRAC**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) adroddiad yn rhoi diweddariad ar waith a chanlyniadau'r prosiect ADTRAC. Eglurodd mai prosiect cymdeithasol a ariennir gan Ewrop yw ADTRAC wedi ei dargedu at bobl ifanc 16 - 24 oed sydd wedi eu dosbarthu fel rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), ac y bydd yn parhau tan fis Hydref 2020. Roedd y prosiect wedi ei rannu'n 2 is ranbarth (Dwyrain a Gorllewin) ac roedd yr Awdurdod wedi'u partneru gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Y partneriaid allweddol eraill yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Gyrfa Cymru. Eglurodd y Prif Swyddog gyd-destun a darpariaeth y prosiect a chyfeiriodd at y prif ystyriaethau a nodwyd yn yr adroddiad. Dywedodd bod 158 o bobl ifanc wedi ymgysylltu â'r prosiect ADTRAC hyd yma a bod 14 arall yn aros i wneud hynny.

Mynegodd y Cynghorydd Patrick Heesom bryderon ynglŷn â chyfleoedd i bobl ifanc 15-25 ym mhob rhan o'r wlad gael mynediad at gyllid drwy'r prosiect ADTRAC. Mewn ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Heesom ynglŷn ag argaeledd cyllid chyfeiriodd y Prif Swyddog at feini prawf y prosiect a dywedodd y byddai'n fodlon hwyluso cyfarfod rhwng y Cynghorydd Heesom a Phennaeth y Gwasanaeth Cynhwysiant i drafod y materion a godwyd mewn mwy o fanylder.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth y gwaith ac effaith y gwasanaeth ADTRAC.

## **8. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL A DIOGELWCH RHYNGRWDYD**

Gwahoddodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) yr Ymgynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu i gyflwyno'r adroddiad. Eglurodd yr Ymgynghorydd Dysgu bod yr adroddiad wedi'i lunio mewn ymateb i gais gan yr Aelodau am ddiweddariad ar yr adroddiad blaenorol a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2017, yn rhoi sicrwydd bod plant a phobl ifanc yn ysgolion Sir y Fflint yn derbyn cefnogaeth briodol i ddatblygu eu sgiliau o ran defnyddio cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Dysgu, Iechyd Lles a Diogelu wybodaeth gefndir a chyfeiriodd at yr ystyriaethau allweddol fel y'u nodwyd yn yr adroddiad, yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol a diogelwch ar y rhyngrwyd. Tynnodd sylw at y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU, y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, hunanwerthusiad diogelu Estyn, llwyfan Hwb, 360 Degree Safe Cymru, Rhaglenni Cyswllt Ysgolion Craidd Cymru Gyfan a'r Diwrnod Defnydd Mwy Diogel o'r Rhyngrwyd.

Mynegodd y Cadeirydd bryderon am seiber fwlio a'r defnydd amhriodol o'r cyfryngau cymdeithasol a soniodd am yr angen i ddefnyddio technoleg yn gyfrifol a gyda pharch. Awgrymodd y dylai aelodau fod yn ystyriol o'u defnydd eu hunain o'r cyfryngau cymdeithasol a'r angen iddynt osod esiampl i bobl ifanc.



Mewn ymateb i'r pryderon a gododd y Cadeirydd roedd pob aelod o'r Pwyllgor wedi gwneud addewid na fyddent yn ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol mewn modd a fyddai'n difenwi pobl eraill.

Soniodd y Cynghorydd Kevin Hughes am y defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd a darpariaeth technoleg a alluogir gan y rhyngwrwyd sy'n newid ac yn datblygu'n gyflym. Cynigiodd y dylid cynnwys eitem ar y cyfryngau cymdeithasol a diogelwch ar y rhyngwrwyd mewn ysgolion yn rheolaidd yn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor a chytunodd yr aelodau â hyn.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Patrick Heesom yr Ymgynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu am eu hadroddiad cynhwysfawr a dywedodd y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd anfon copi ymlaen at yr holl Aelodau er gwybodaeth ar ôl y cyfarfod.

Yn ystod trafodaeth ymatebodd yr Ymgynghorydd Dysgu i gwestiynau a sylwadau a godwyd gan aelodau am ymwybyddiaeth rhieiniol a soniodd am y mentrau mewn ysgolion i ymgysylltu â rhieni a rhannu arfer da er mwyn cadw pobl ifanc yn ddiogel ar-lein wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor yn cadarnhau eu bod wedi derbyn lefel briodol o sicrwydd am y cynnig addysgol mewn ysgolion mewn perthynas â diogelwch ar-lein gan gynnwys y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol;
- (b) Bod yr Aelodau'n ymrwmo i osod esiampl i bobl ifanc o ran y modd y maen nhw eu hunain yn ymgysylltu a'r cyfryngau cymdeithasol.
- (c) Bod yr Aelodau'n cefnogi camau i wahodd yr holl Gynghorwyr i wneud y fath ymrwymiad; a
- (d) Bod copi o'r adroddiad ar gael i'r holl Gynghorwyr.

#### **9. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol er ystyriaeth. Dywedodd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 27 Mehefin ac yn dilyn cymeradwyo Amserlen Cyfarfodydd 2019/20 yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor Sir ym mis Mai 2019, roedd cyfarfodydd y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol wedi eu cynnwys yn y Rhaglen.

Tynnodd yr Hwylusydd sylw at y cyfarfod a oedd wedi ei drefnu ar gyfer 26 Medi gan ddweud y byddai canlyniad Arolygiad Estyn o Gyngor Sir y Fflint yn cael ei gynnwys er ystyriaeth. Dywedodd hefyd bod yr Uwch Reolwr Darpariaeth Ieuenctid Integredig wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Pwyllgor ar 7 Tachwedd 2019 er mwyn rhoi gwybodaeth am waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Cytunodd y Pwyllgor ag awgrym y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) ei bod, ar ôl cwblhau cynlluniau busnes y portffolio Addysg ac Ieuenctid, yn

ymgysylltu â'r Cadeirydd er mwyn ychwanegu eitemau at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Dywedodd yr Hwylusydd ei bod wedi anfon e-bost at holl aelodau'r Pwyllgor yn eu gwahodd i ddod i weld yr ysgol newydd ym Mhenyffordd ddydd Mawrth 5 Mehefin. Gofynnodd i'r aelodau sy'n dymuno mynd ar yr ymweliad roi gwybod iddi cyn gynted a phosibl.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y'i newidiwyd, yn cael ei chymeradwyo; a
- (b) Bod yr Hwylusydd, mewn ymgynghoriad a Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**10. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.30 pm a daeth i ben am 5.38 pm)

.....  
**Cadeirydd**